

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015

## **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda**

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 768A2015

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [info.officer@audit.wales](mailto:info.officer@audit.wales)

Roedd y tîm â'm helpodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Ann-Marie Harkin, David Thomas, Tracey Davies a Geraint Norman.

# Cynnwys

---

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	7
Adran 1: Archwilio cyfrifon	8
Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a chyflwynais adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio	8
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau	13
Mae gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd gadarn at reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn, er na lwyddodd i sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2014-15, ac mae'n annhebygol y bydd yn sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2015-16 chwaith. Mae datblygu cyfeiriad strategol clir trwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn her allweddol i'r Bwrdd Iechyd	13
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau trefniadau llywodraethu ac mae wedi creu diwylliant mwy agored a thryloyw. Fodd bynnag, mae cynnydd ar rai materion wedi bod yn araf ac mae angen mynd i'r afael â rhai materion sylfaenol o hyd, gan gynnwys cytuno ar gynllun strategol clir ac amcanion strategol, sefydlu fframwaith sicrwydd ar gyfer y Bwrdd a gwella perfformiad	15
Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, mae yna gyfleoedd hefyd i ddefnyddio adnoddau'n well mewn amryw o feysydd allweddol	20
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blyneddol diwethaf	24
Prif risgiau archwilio ariannol	25

# Adroddiad cryno

---

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2015.
2. Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
3. Yn fy ngwaith archwilio, canolbwyntiais ar flaenoriaethau strategol, yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol a wynebair Bwrdd Iechyd, ac sydd yn berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a'u cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Gellir gweld yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf yn **Atodiad 1**.
4. Cytunwyd â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Ionawr 2015 ac yng nghyfarfod y Bwrdd ar 28 Ionawr 2016, a darperir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ([www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)).
5. Ceir crynodeb o'r prif negeseuon o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rhoddais farn ddiamedod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio, a chyflwynais adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae'r materion a gododd yn ymwneud â gwariant ar ddau gontract gyda darparwyr gofal iechyd sector preifat, gyda'r ddau yn werth dros £1 miliwn. Ni chafodd y contractau hyn eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Gweinidog fel sy'n ofynnol gan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ac ni chafodd y contractau eu caffael yn unol â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) y Bwrdd Iechyd. Nodais hefyd ganfyddiadau Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a adolygodd sampl o brosiectau cyfalaf mwy o faint, gan nodi amryw o faterion sylweddol ac argymhellion y mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â nhw.
7. Yn ogystal, chyflwynais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn egluro'r ddwy ddyletswydd ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 yn sgil Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd Iechyd lleol yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.

- 
8. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad:
- bod datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi mewn modd priodol, a'u bod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond bod yna le i wella mewn rhai meysydd;
  - bod gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
  - bod gweithgareddau rheoli'r Bwrdd Iechyd a ystyriwyd gennym fel rhan o'r archwiliad yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad, er bod angen i reolwyr gymryd camau i ymdrin â rhai gwendidau.
9. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2014-15. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn [Adran 2](#) yr adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

10. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Roedd hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig lle edrychwyd ar drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu a'r cynnydd a wnaed yn gysylltiedig â materion gwella a nodwyd y llynedd. Yn ogystal â hyn, cynhaliais adolygiadau archwilio perfformiad ar feysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Yn sgil y gwaith hwn, deuthum i'r casgliadau canlynol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd gadarn at reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn, er na lwyddodd i sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2014-15, ac mae'n annhebygol y bydd yn sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2015-16 chwaith. Mae datblygu cyfeiriad strategol clir trwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn her allweddol i'r Bwrdd Iechyd.

11. Dyma ganfyddiadau allweddol fy adolygiad o sefyllfa ariannol a threfniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd:
- Yn 2014-15, roedd gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd gadarn at reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i sicrhau cydbwysedd ariannol ac, er iddo dderbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £7.5 miliwn. Nid oedd gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd cymeradwy.
  - Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol ar gyfer 2015-16 ac mae wrthi ar hyn o bryd yn rhagweld diffyg alldro o £32.5 miliwn. Mae tangyflawniad amryw o gynlluniau arbedion yn cyfrannu at y diffyg hwn. Fel yn 2014-15, nid oes gan y Bwrdd Iechyd CTCI tair blynedd cymeradwy.

---

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau trefniadau llywodraethu ac mae wedi creu diwylliant mwy agored a thryloyw. Fodd bynnag, mae cynnydd ar rai materion wedi bod yn araf ac mae angen mynd i'r afael â rhai materion sylfaenol o hyd, gan gynnwys cytuno ar gynllun strategol clir ac amcanion strategol, sefydlu fframwaith sicrwydd ar gyfer y Bwrdd a gwella perfformiad

- 12.** Dyma ganfyddiadau allweddol fy adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd:
- Nid oes cynllun tair blynedd cymeradwy, er bod gan y Bwrdd Iechyd gynllun blynyddol a'i fod wedi cryfhau ei ddull cynllunio. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar gapasiti a bylchau mewn ymgysylltu clinigol i gefnogi cynllunio strategol ac arweinyddiaeth, ynghyd â chyflymder y newid, yn cyflwyno risgiau.
  - Mae newidiadau i bortffolios gweithredol wedi cryfhau atebolrwydd, ond nid yw manteision yr ad-drefnu sefydliadol wedi'u gwireddu'n llawn ar draws ysbysai aciwt ac mae capasiti rhai o'r swyddogaethau rheoli corfforaethol a gweithredol yn cael eu cyfyngu'n fawr iawn.
  - Mae rheolaethau mewnol, sicrwydd ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn parhau i gael eu cryfhau ac maent yn effeithiol ar y cyfan, er bod yna rai meysydd pwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw o hyd.
  - Er bod rhai agweddau wedi'u cryfhau, mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn risg i'r Bwrdd Iechyd.
  - Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi'u cryfhau, er bod cyfleoedd eraill i wella o hyd. Nid yw llawer o'r targedau perfformiad yn cael eu cyflawni.

Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, mae yna gyfleoedd hefyd i ddefnyddio adnoddau'n well mewn amryw o feysydd allweddol

- 13.** Dyma ganfyddiadau allweddol fy adolygiadau archwilio perfformiad:
- mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â staff, pobl leol a phartneriaid yn well, ond mae'n dal i wynebu risgiau sylweddol mewn perthynas â'i weithlu, ei allu TGCh a'i drefniadau rheoli newid;
  - er bod rhai o'r prosesau rheoli meddyginiaethau yn dda, mae yna hefyd le i wella mewn meysydd sy'n gysylltiedig â threfniadau corfforaethol, monitro perfformiad, cyfleusterau aseptic, trosglwyddo gwybodaeth, lleihau amrywiad ar draws safleoedd a helpu pobl i gymryd eu meddyginiaethau; ac
  - mae gwybodaeth am faint o apwyntiadau dilynol cleifion allanol sy'n cael eu gohirio yn annibynadwy ac nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i asesu risg glinigol neu flaenoriaethu'r gwaith o foderneiddio gwasanaeth cleifion allanol.
- 14.** Hoffem ddiolch o galon i staff ac aelodau annibynnol y Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

---

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

15. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ionawr 2015 a mis Rhagfyr 2015.
16. Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004.<sup>1</sup> Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:
  - a) archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
  - b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r datganiadau ariannol yn ymwneud â nhw wedi'u cyflawni i'r diben a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a
  - c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
17. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
  - canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
  - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a'r defnydd o adnoddau;
  - archwiliadau archwilio perfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
  - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
  - gwaith arall, megis ardystio hawliadau a ffurflenni.
18. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn [Atodiad 1](#).
19. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
  - Adran 1: Archwilio cyfrifon
  - Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau
20. Amlinellodd fy Nghynllun Archwilio 2015 ffi archwilio arfaethedig o £420,452. Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi, sy'n seiliedig ar y ffaith bod rhywfaint o waith yn cael ei gyflawni o hyd, yn unol â'r ffi a osodwyd yn y Cynllun Archwilio. Mae'r ffi hon yn cynnwys y gwaith archwilio a gyflawnwyd mewn perthynas â'r cydwasanaethau a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.
21. Yn olaf, mae [Atodiad 2](#) yn amlinellu'r prif risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2015 a sut y cawsant eu trafod yn ystod yr archwiliad.

---

<sup>1</sup> Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

---

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

- 22.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Mae'r datganiadau ariannol yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei ddatganiad o'i sefyllfa ariannol, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.
- 23.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
  - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
  - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
  - a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
  - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
- 24.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
- 25.** Wrth wneud y gwaith hwn, rwyf hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
  - gweithgareddau rheoli yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r archwiliad.

**Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a chyflwynais adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio**

**Cafodd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd eu paratoi mewn modd priodol ac maent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond mae yna le i wella mewn rhai meysydd**

- 26.** Cyflwynwyd y datganiadau ariannol drafft yn amserol erbyn y dyddiad cau ar 1 Mai 2015. Hefyd, cafwyd tystiolaeth glir fod gwiriadau sicrhau ansawdd wedi'u cynnal ar y datganiadau ariannol, yn cynnwys adolygiad dadansoddol cynhwysfawr ac adroddiad yn crynhoi'r penderfyniadau a'r amcangyfrifon pwysicaf.



27. Yn unol â Safon Archwilio Rhyngwladol 260, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Bwrdd y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion amlycaf a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol**

Mater	Sylwadau'r archwilydd
Darparwyr gofal iechyd sector preifat	<p>Yn ystod 2014-15, aeth y Bwrdd Iechyd i gostau ar ddau contract gyda darparwyr gofal iechyd sector preifat, gyda'r ddau yn dod i gyfanswm o fwy nag £1 miliwn (£1.3 miliwn ac £1.5 miliwn). Ni chafodd y contractau hyn eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Gweinidog fel sy'n ofynnol gan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Yn ogystal, ni chafodd y contractau eu caffael yn unol ag SFIs y Bwrdd Iechyd. Felly, roedd y gwariant hwn yn 'afreolaidd' ond, gan nad oedd y taliadau hyn yn berthnasol i'r datganiadau ariannol, yn feintiol nac yn ansoddol, nid oedd yna gymhwyster archwilio. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r contractau hyn a byddwn yn cynnal archwiliad dilynol yn gynnar yn 2016.</p>
Cynlluniau cyfalaf	<p>Gwariodd y Bwrdd Iechyd tua £27 miliwn ar brosiectau cyfalaf yn 2014-15 gan gadw o fewn ei Ddyraniad Adnoddau Cyfalaf. Fel rhan o'n harchwiliad o'r gwariant hwn, rydym wedi dibynnu ar y gwaith a gyflawnir gan Wasanaethau Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Uned Gwasanaethau Arbenigol). Yn ystod 2014-15, roedd yr Uned Gwasanaethau Arbenigol wedi cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar sampl o'r prosiectau cyfalaf mwyaf ac wedi cyflawni amrywiaeth o waith dilynol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys amryw o faterion sylweddol ac argymhellion y mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â nhw. Mae'r Uned Gwasanaethau Arbenigol wedi nodi bod angen i'r Bwrdd Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• wella'r ffordd y mae'n craffu ar achosion busnes, gan sicrhau eu bod yn cysylltu â'r strategaeth glinigol;</li> <li>• sicrhau bod arweinwyr gweithredol yn gwneud cyfraniad priodol at bob prosiect;</li> <li>• gwella'r gwaith o lywodraethu a rheoli prosiectau;</li> <li>• os defnyddir tendrau sengl, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod modd dangos gwerth am arian;</li> <li>• cynnal gwerthusiadau ôl-brosiect ar bob prosiect sylweddol, gan sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â phrosiectau eraill; a</li> <li>• chyflymu diweddariad y Bwrdd Iechyd o'r fframwaith caffael cyfalaf, sydd wedi dioddef oedi sylweddol.</li> </ul> <p>Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr argymhellion a wneir gan yr Uned Gwasanaethau Arbenigol yn cael eu rhoi ar waith yn amserol a bod y dull o lywodraethu a rheoli prosiectau cyfalaf yn cael ei wella. Byddwn yn adolygu'r cynnydd yn 2016.</p>

Mater	Sylwadau'r archwilydd
<p>Perfformiad Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP)</p>	<p>Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn 'cod talu'n brydlon' PSPP yn cael ei nodi yn Nodyn 7.1 yn y datganiadau ariannol – mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o dalu 95 y cant o gredydwy'r o'r tu allan i'r GIG cyn pen 30 diwrnod. Rydym wedi nodi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y talwyd 94.6 y cant o gredydwy'r o'r tu allan i'r GIG cyn pen 30 diwrnod yn 2014-15, sydd islaw'r targed a osodwyd gan Weinidogion. Yn ystod rhan gyntaf 2014-15, roedd materion sylweddol yn codi o'r gwaith o uwchraddio systemau busnes Cymru gyfan, felly nid oedd y targed yn cael ei gyflawni. Ers mis Hydref 2015, mae'r targed wedi'i gyflawni bob mis.</li> <li>• Mae'r Llawlyfr Cyfrifon yn ei gwneud hi'n ofynnol i daliadau a wneir i gontractwyr gofal sylfaenol gael eu cynnwys yn nata perfformiad PSPP. Yn unol â chyrff eraill y GIG ledled Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio system Exeter i brosesu taliadau gofal sylfaenol. Nid yw'r system yn darparu gwybodaeth ystadegol, felly mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagdybio bod pob taliad yn cael ei wneud cyn pen 30 diwrnod yn unol â rhwymedigaethau'r contract. O ganlyniad, efallai bod y perfformiad PSPP ar gyfer taliadau i gredydwy'r yn y GIG ac o'r tu allan i'r GIG yn Nodyn 7.1 wedi'i gam-ddatgan. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd archwilio'r mater hwn ledled Cymru yn 2015-16. Byddwn yn adolygu'r cynnydd yn 2016.</li> </ul>
<p>Datganiad Llywodraethu Blynyddol</p>	<p>Codais rai materion bach ynglŷn â Datganiad Llywodraethu Drafft y Bwrdd Iechyd, ac awgrymais amryw o addasiadau a ymgorfforwyd yn y fersiwn derfynol.</p> <p>Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi nodi y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gydol y flwyddyn fel rhan o'r gwaith o asesu 'fframwaith sicrwydd y Bwrdd'. Yn 2014-15, roedd y Bwrdd Iechyd yn parhau i adolygu a datblygu fframwaith sicrwydd y Bwrdd, ond ni chynhyrchwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol tan ar ôl diwedd y flwyddyn. Dylai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael ei ystyried yn rheolaidd gydol y flwyddyn fel rhan o'r gwaith o asesu effeithiolrwydd fframwaith sicrwydd y Bwrdd.</p>

- 
28. Yn ôl Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol newydd. Cyhoeddais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio i egluro'r ddyletswyddau newydd, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.
- Mae'r **ddyletswydd ariannol gyntaf** yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Fyrdau Iechyd o ran adnoddau, drwy eu galluogi i fantoli eu hincwm a'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd, gan ddisodli'r ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon bob blwyddyn. Y cyfnod cyntaf o dair blynedd o dan y ddyletswydd hon yw 2014-15 hyd 2016-17, felly ni fydd perfformiad y byrddau Iechyd o dan y ddyletswydd yn cael ei fesur hyd 2016-17. O 2014-15 ymlaen, byddaf yn casglu camddatganiadau heb eu cywiro o archwiliadau blynyddoedd un, dau a thri, ac yn ystyried eu heffaith gronpus ar berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y ddyletswydd wrth ei fesur ym mlwyddyn tri. Nodwyd ambell wall dibwys yn 2014-15.
  - Yr **ail ddyletswydd ariannol** yw ddyletswydd newydd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i fyrdau Iechyd baratoi CTCI tair blynedd treigl, a sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y cynllun hwnnw. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gynllun tair blynedd wedi'i ddiweddarau ym mis Ionawr 2015 ac, er y nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y cynllun hwn yn well na'r un blaenorol, nid oedd yn teimlo bod y cynllun yn ddigon cadarn i'w gymeradwyo. O ganlyniad, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ail ddyletswydd ariannol, sef creu CTCI tair blynedd cymeradwy ar gyfer y cyfnod 2014-15 hyd 2016-17.
29. Fel rhan o'm gwaith archwilio ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:
- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2015 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.
  - Adroddiad ar Daliadau - Deuthum i'r casgliad bod yr Adroddiad ar Daliadau wedi'i lunio'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru yn sgil y Ddeddf honno.
  - Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - Deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
30. Cwblhawyd fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol elusenol y Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2015. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar y datganiadau ariannol, er fy mod wedi nodi rhai meysydd i'w gwella.

---

Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol

31. Ffocws pennaf fy ngwaith yw cywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r amgylchedd rheolaeth fewnol er mwyn asesu a yw'n rhoi sicrwydd na cheir unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy wall neu drwy dwyll. Mae'r amgylchedd rheolaeth yn cynnwys y swyddogaethau llywodraethu a rheoli ac agweddau, ymwybyddiaeth a gweithredoedd y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli, mewn perthynas â rheolaeth fewnol yr endid a phwysigrwydd y rheolaeth honno o fewn yr endid. Ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol y Bwrdd Iechyd.

Roedd gweithgareddau rheoli'r Bwrdd Iechyd a ystyriwyd gennym fel rhan o'r archwiliad yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad, er bod angen i reolwyr gymryd camau i ymdrin â rhai gwendidau

32. Ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yng ngweithgarwch rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd a fyddai'n cael effaith ar fy marn archwilio. Fodd bynnag, fel y nodir yn [Arddangosyn 1](#), nodais rai gwendidau yng ngweithrediad rhai o reolaethau'r Bwrdd Iechyd.
33. Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014-15, nododd yr Adran Archwilio Mewnol y gall y Bwrdd Iechyd gael sicrwydd rhesymol bod trefniadau i sicrhau rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg yn y meysydd hynny sy'n destun adolygiad wedi'u cynllunio'n addas ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd yr Adran Archwilio Mewnol amryw o adroddiadau 'sicrwydd cyfyngedig', a oedd yn effeithio ar ei barn archwilio gyffredinol. Ar gyfer yr archwiliad o systemau ariannol, cadarnhaodd yr Adran Archwilio Mewnol fod trefniadau rheoli digonol ar waith.
34. Yn ogystal, nododd yr Adran Archwilio Mewnol amryw o wendidau rheoli y mae angen cymryd camau mewn perthynas â nhw. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynlluniau gweithredu i gryfhau'r gwendidau rheoli a nodwyd, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn parhau i graffu ar gynnydd.

---

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

- 35.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud ystod o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at sicrhau cydbwysedd ariannol;
  - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed o ran nodi meysydd i'w gwella ers y llynedd;
  - gwaith ar ddefnydd penodol o adnoddau wrth reoli meddyginiaethau, apwyntiadau dilynol i gleifion allanol ac adolygiadau archwilio lleol, sy'n cynnwys capasiti TGCh; ac
  - asesu'r cynnydd mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran ymdrin â'r problemau a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol ar lywodraethu gwybodaeth ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain argymhellion archwilio allanol.
- 36.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd gadarn at reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn, er na lwyddodd i sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2014-15, ac mae'n annhebygol y bydd yn sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2015-16 chwaith. Mae datblygu cyfeiriad strategol clir trwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn her allweddol i'r Bwrdd Iechyd

Yn 2014-15, roedd gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd gadarn at reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2014-15 ac, er iddo dderbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £7.5 miliwn. Nid oedd gan y Bwrdd Iechyd CTCl tair blynedd cymeradwy

- 37.** Yn 2014-15, roedd y gwaith o fonitro ac adrodd ar gyllidebau yn fisol i Lywodraeth Cymru, y Bwrdd ac adrannau yn gadarn, yn gynhwysfawr ac yn amserol. Yn ystod 2014-15, roedd y Bwrdd Iechyd yn wynebu cyfyngiadau ariannol ac ni chafodd y gyllideb gymeradwy ar gyfer 2014-15 ei gosod i gyflawni cydbwysedd ariannol, gyda diffyg cychwynnol amcangyfrifedig o £56.7 miliwn ac arbedion o £13 miliwn yn unig.
- 38.** Ar ddiwedd 2014-15, ni chyflawnwyd y dyraniad adnoddau referniw, gyda gorwariant o £7.5 miliwn, er ei fod wedi derbyn cyllid ychwanegol o £38.7 miliwn gan Lywodraeth

---

Cymru ac er bod y gofyniad i ad-dalu'r diffyg o £19.2 miliwn a gariwyd drosodd o 2013-14 wedi'i ddileu.

39. Ar gyfer 2014-15, roedd yr arbedion £4.9 miliwn yn uwch na'r targed diwygiedig o £10 miliwn. Fodd bynnag, roedd yr arbedion dipyn yn llai na'r £23.5 miliwn a gyflawnwyd yn 2013-14.
40. Ar gyfer gwariant cyfalaf, rhoddodd y Bwrdd Iechyd Flaenoriaeth i risgiau ystadau sylweddol, a chyflawnodd ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf o £25.5 miliwn.
41. Fel y nodwyd yn **Adran 1** uchod, ar gyfer 2014-15, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd statudol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddo lunio CTCI tair blynedd a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru.

Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol ar gyfer 2015-16 ac mae wrthi ar hyn o bryd yn rhagweld diffyg alldro o £32.5 miliwn. Mae tangyflawniad amryw o gynlluniau arbedion yn cyfrannu at y diffyg hwn. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd CTCI tair blynedd cymeradwy.

42. Yn 2015-16, roedd y gwaith o fonitro ac adrodd ar gyllidebau yn fisol i Lywodraeth Cymru, y Bwrdd ac adrannau yn gadarn, yn gynhwysfawr ac yn amserol.
43. Ar gyfer 2015-16, roedd y pwysau ariannol yn sylweddol unwaith eto ac ni allai'r Bwrdd Iechyd osod cyllideb gytbwys, gyda'r Bwrdd yn cymeradwyo diffyg arfaethedig o £25.6 miliwn, gan gynnwys targed heriol iawn ar gyfer arbedion, sef £24.5 miliwn. Ym mis Ionawr 2016, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg alldro o £32.5 miliwn sy'n cynnwys amcangyfrif o dangyflawniad amryw o Gynlluniau Gwella Costau (CIPs) fel yr amlinellir isod. Mae anawsterau recriwtio sylfaenol a'r gofyniad i ddefnyddio staff locwm a staff asiantaeth mwy costus yn gwneud cyfraniad allweddol at y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu, ac mae'n annhebygol iawn y bydd cydbwysedd ariannol yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.
44. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei chael hi'n anodd darparu CIPs arfaethedig hynod uchelgeisiol. Mae'r CIPs a osodwyd ar gyfer 2015-16 islaw'r proffil ar hyn o bryd ac mae'n debygol y byddant yn dangos tangyflawniad sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn. O'r £24.5 miliwn o arbedion a nodwyd yn y gyllideb, dim ond £15.2 miliwn (62 y cant) ohonynt sydd wedi'u nodi fel cynlluniau penodol ac, ym Mis 6, mae'r arbedion go iawn yn dod i gyfanswm o £3.6 miliwn yn erbyn proffil o £6.7 miliwn (54 y cant).
45. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fynd i'r afael â'r risgiau ystadau sylweddol yn 2015-16 ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf o £10 miliwn yn 2015-16.
46. Ar gyfer 2015-16, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd statudol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddo lunio CTCI tair blynedd a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Bwrdd Iechyd ar ddechrau 2015-16 ei bod ar fin dechrau ar ail flwyddyn cylch cynllunio tair blynedd.

---

Mae'r Bwrdd wedi pennu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw trwy drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, ond mae angen gwneud gwelliannau pellach, gan gynnwys yr angen parhaus i gryfhau gallu sefydliadau

47. Yn yr adran hon o'r adroddiad, ystyrir fy nghanfyddiadau ynghylch sicrwydd llywodraethu a'r Bwrdd, wedi'u cyflwyno o dan y themâu canlynol:
- Cynllunio strategol
  - Strwythur trefniadol
  - Sicrwydd y Bwrdd a rheolaeth fewnol
  - Llywodraethu gwybodaeth
  - Rheoli perfformiad

Nid oes yna gynllun tair blynedd cymeradwy, er bod gan y Bwrdd lechyd gynllun blynyddol a'i fod wedi cryfhau ei ddull cynllunio. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar gapasiti a bylchau mewn ymgysylltu clinigol i gefnogi cynllunio strategol ac arweinyddiaeth, ynghyd â chyflymder y newid, yn cyflwyno risgiau

48. Yn 2014, er bod gan y Bwrdd lechyd weledigaeth glir ac er ei fod wedi gwneud amryw o newidiadau mawr i'w wasanaethau, nodais nad oedd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo CTCI cytunedig y Bwrdd gan ei fod yn perfformio'n waeth o lawer na'r disgwyl. Roedd problemau allweddol yn cynnwys diffyg opsiynau strategol, diffyg eglurder ynghylch y canlyniadau bwriedig gyda chanlyniadau darparu a pherfformiad heb eu hamlinellu'n glir, cynlluniau'r gweithlu ddim yn gadarn, diffyg sylweddol ar draws y tair blynedd a dyraniadau cyfalaf ddim yn unol â rhagdybiaethau Llywodraeth Cymru. Roedd y Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen cryfhau ei ddull cynllunio strategol, gyda gwell cysylltiadau ar draws cynlluniau ariannol, gwasanaeth a'r gweithlu.
49. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cryfhau ei ddull cynllunio a'i brosesau gyda chyfrifoldebau cynllunio strategol wedi'u haildiffinio, mwy o dryloywder a sicrwydd y Bwrdd ynghylch cynllunio. Gan nad oes ganddo gynllun tair blynedd, mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio i gynllun blwyddyn. Trafodwyd 'drafft cyntaf' o gynllun tair blynedd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Mae'r cynllun drafft yn mynd i'r afael ag amryw o'r materion a gododd yn flaenorol, er bod y Bwrdd lechyd yn cydnabod bod y cynllun yn dal i gael ei ddatblygu, gyda chydrannau allweddol i'w hychwanegu eto a rhai agweddau i'w mireinio ymhellach. Mae gan y Bwrdd lechyd broses glir ar gyfer symud y cynllun ymlaen i'r cam nesaf ym mis Ionawr, pan fydd y cynllun cymeradwy terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn bwriadu ymgysylltu'n fwy eang ar gynnwys y cynllun yn ystod mis Ionawr 2016.



---

**50.** Mae yna amryw o risgiau a heriau yn gysylltiedig â chynhyrchu cynllun cadarn, gan gynnwys amserlenni heriol i gyflawni'r cerrig milltir allweddol ar gyfer cynhyrchu'r cynllun, cyfyngiadau capasiti corfforaethol a gweithredol, bylchau mewn arweinyddiaeth ac ymgysylltu clinigol ac ansicrwydd ynglŷn â rhagdybiaethau cynllunio ariannol. Bydd gallu'r Bwrdd lechyd i gynhyrchu cynllun cytbwys yn her sylweddol. Mae heriau pellach yn cynnwys diffyg amcanion strategol cytunedig y mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith ar ôl i'r cynllun gael ei gytuno a'r diffyg strategaeth gwasanaethau cyffredinol sy'n nodi sut y bydd gwasanaethau clinigol yn cael eu darparu ar draws y Bwrdd lechyd. Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud ymdrech i ganolbwyntio ar sefydlogi ac arloesi yn hytrach na gweddnewid gwasanaethau. Er bod yna fanteision i'r ffocws hwn, efallai y bydd angen gweddnewid rhai gwasanaethau cyn y gellir eu sefydlogi a bydd angen i'r Bwrdd lechyd ystyried y rhain yn ofalus.

**Mae newidiadau i bortffolios gweithredol wedi cryfhau atebolrwydd, ond nid yw manteision yr ad-drefnu sefydliadol wedi'u gwireddu'n llawn ar draws ysbytai aciwt ac mae capasiti rhai o'r swyddogaethau rheoli corfforaethol a gweithredol yn gyfyng iawn**

- 51.** Nododd fy ngwaith asesu strwythuredig blaenorol fod y Bwrdd lechyd wedi ad-drefnu ei strwythur fel ei fod yn gyfarwyddiaeth gwasanaethau aciwt sy'n cwmpasu'r Bwrdd lechyd cyfan, ynghyd â thair cyfarwyddiaeth sirol. Nod ailstrwythuro 2014 oedd darparu gofal mwy cyson, darparu mwy o gydlyniant a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd. Nododd fy nhîm mai un o'r heriau fyddai sicrhau cytundeb rhai arbenigeddau clinigol i weithio fel un gwasanaeth ar draws y Bwrdd lechyd.
- 52.** Yn ystod 2015, mae fy nhîm wedi nodi nad yw manteision y strwythur sefydliadol wedi'u gwireddu'n llawn ar draws ysbytai aciwt. Er bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud gwaith sylweddol i gryfhau'r model meddygol ar draws y Bwrdd lechyd, nid yw hyn wedi'i adlewyrchu mewn gwasanaethau eraill. Felly, nid yw'r Bwrdd lechyd yn cyflawni ei weledigaeth o weithredu fel un ysbyty dros bedwar safle, ac nid yw'r ad-drefnu wedi llwyddo i ddileu'r gwaith 'seilo' ar draws y safleoedd aciwt. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran gwella perfformiad ac effeithlonrwydd, mae yna her sylweddol o hyd. Crëodd yr ad-drefnu broblemau eraill hefyd gan ei fod yn lleihau nifer yr uwch reolwyr oedd ar gael i gyflenwi ar y safle. Cafodd mesurau dros dro tymor byr eu rhoi ar waith i ddarparu cymorth ac arweiniad i uwch reolwyr ar y safle i fynd i'r afael â materion gweithredol wrth iddyn nhw godi. Roedd y model cymorth rheoli, meddygol a nyrsio 'tri ar y brig' yn helpu i fynd i'r afael â heriau yn y gwasanaethau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'r strwythur ychwanegol hwn wedi creu rhywfaint o ddryswch o ran llinellau adrodd ac atebolrwydd.
- 53.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae portffolios y Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi cael eu diwygio, ac mae'r newidiadau wedi cryfhau atebolrwydd. Mae'r strwythur Gweithredol bellach yn llawn penodiadau terfynol hefyd. Mae fy nhîm wedi nodi bod capasiti cyfyngedig strwythur cymorth rhai o'r cyfarwyddwyr yn peri pryder gan y gallai amharu ar ddarpariaeth amcanion allweddol o fewn eu portffolios. Yn fwy cyffredinol ar draws y Bwrdd lechyd, mae gallu uwch reolwyr a rheolwyr canol yn dal i beri pryder i rai gwasanaethau.



---

Mae rheolaethau mewnol, sicrwydd ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn parhau i gael eu cryfhau ac maent yn effeithiol ar y cyfan, er bod yna rai meysydd pwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw o hyd

54. Mae'r Bwrdd yn dangos mwy o onestrwydd a thryloywder ac ymrwymiad i gryfhau llywodraethu a gwella ansawdd. Mae cynlluniau dirprwyo wedi'u cryfhau ac mae atebolrwydd yn gliriach bellach. Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau gweinyddu effeithiol, gyda'r holl ofynion gweithdrefnol ffurfiol yn cael eu bodloni o ran diweddarau ei SFIs a'i Reolau Sefydlog (SOs). Nododd fy ngwaith asesu strwythuredig blaenorol nad oedd gan y Bwrdd lechyd amcanion strategol cytunedig na fframwaith sicrwydd Bwrdd. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'r Bwrdd ddangos ei fod yn cael y sicrwydd priodol. Yn 2015, mae'r rheolaethau llywodraethu sylfaenol hyn yn dal i fod ar goll, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran cynhyrchu fframwaith sicrwydd Bwrdd drafft. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu cytuno ar ei amcanion strategol a'i fframwaith sicrwydd Bwrdd, a'u rhoi ar waith, ar ôl cytuno ar gynllun tair blynedd. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i wella profiad cleifion ac mae cynnydd wedi'i wneud mewn amryw o feysydd, gan gynnwys camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad sylweddol o bryderon a digwyddiadau, ynghyd â mynd ati i dreialu dull cofnodi amser real. Fodd bynnag, mae amseroldeb yr ymatebion i gwynion a digwyddiadau yn wael o hyd, ac mae ôl-groniad newydd wedi cael ei greu.
55. Mae newidiadau pwysig i strwythur a gweithrediad pwyllgorau Bwrdd wedi cryfhau trefniadau llywodraethu a sicrwydd cyffredinol. Mae'r Bwrdd lechyd wedi diwygio ei Bwyllgorau Bwrdd i gefnogi craffu effeithiol yn well, i leihau dyblygu ac i sicrhau gwell cysylltiadau a chydgyssylltu ar draws pwyllgorau. Mae yna aliniad clir gyda phortffolios gweithredol, cynlluniau gwaith clir ac agendâu ac mae'r trefniadau rheoli yn dda. Mae'r trefniadau herio a chraffu yn dda ar y cyfan ac mae trafodaethau'n onest ac yn hunanfeirniadol. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, Profiad a Sicrwydd yn cael y lefel briodol o sicrwydd gan ei is-bwyllgorau bob amser, ac mae angen defnyddio adroddiadau eithrio yn well. Er bod ansawdd papurau'r pwyllgor wedi gwella, nid yw rhai yn darparu'r sicrwydd angenrheidiol. Mae aelodau'r pwyllgor yn dod yn llai goddefgar o hyn ac, yn aml, gofynnir i awduron ddarparu mwy o sicrwydd.
56. Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i ddatblygu ei wybodaeth reoli i gefnogi penderfyniadau a chraffu effeithiol. Mae ffynhonnell wybodaeth eang ar gael ac mae llawer o waith wedi'i wneud i wella'r ffordd mae gwybodaeth reoli'n cael ei chyflwyno. Mae aelodau annibynnol yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth o ddata a pharodrwydd i ofyn am fwy o wybodaeth neu newidiadau i'r cyflwyniad. Mae **Paragraff 63** yn rhoi mwy o fanylion am wybodaeth ar berfformiad.

- 
- 57.** Mae trefniadau rheoli risg wedi parhau i gael eu cryfhau ar lefel Bwrdd a Gweithredol, gyda Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg cadarn a phrosesau clir sy'n cael eu cefnogi'n dda ar lefel gorfforaethol a gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi ei risgiau mwyaf eithafol mewn ffordd glir a gonest trwy'r gofrestr gorfforaethol sydd ar gael i'r cyhoedd, mae yna gyfrifoldeb clir ar uwch reolwyr a staff gweithredol ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei chwant am risg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflwyno risg sylweddol y mae'n ceisio mynd i'r afael â hi, gan gynnwys gwasanaethau bregus, sefyllfa ariannol andwyol, cyflwr yr ystâd, heriau i'r gweithlu ac anhawster o ran bodloni llawer o dargedau perfformiad. Fodd bynnag, mae llawer o'r rhain yn risgiau tymor hir. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) bellach yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau rheoli risg a'r gofrestr risg ac, os yw risgiau'n cael eu goddef am fwy na chwe mis, mae'n bwriadu dwyn staff gweithredol i gyfrif. Mae meysydd i'w gwella yn cynnwys sicrhau bod ei risgiau yn cyfateb i'w amcanion strategol ar ôl eu cytuno a datblygu'r gwaith o nodi a rheoli risg partneriaeth. Mae rheolaethau mewnol yn bodloni gofynion sicrwydd yn effeithiol ar y cyfan.
- 58.** Fel rhan o'm hymrwymiad i helpu i sicrhau a dangos gwelliant trwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed fel rhan o'm rhaglen o waith archwilio lleol ar fandad cenedlaethol yn ystod 2015. Yn ôl y gwaith hwn, er bod ansawdd yr ymatebion rheoli wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, maent yn dal i fod yn anghyson, ac yn wael mewn rhai achosion. Yn ogystal, mae cyflymder y gwelliant o ran mynd i'r afael â rhai argymhellion blaenorol wedi bod yn araf. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gryfhau ei ddull a gwella'r gwaith o olrhain a rheoli argymhellion ac mae wedi cryfhau ei ddull o ran sicrhau perchnogaeth uwch reolwyr. Mae dull olrhain newydd yn cael ei ddatblygu a fydd yn olrhain yr holl argymhellion allanol a mewnol mewn un lle. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a'r nod yw cyflwyno'r dull olrhain newydd i'r ARAC ym mis Mawrth 2016.

**Er bod rhai agweddau wedi'u cryfhau, mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn risg i'r Bwrdd Iechyd**

- 59.** Yn ôl fy adolygiad diagnostig o allu ac adnoddau TGCh, ar y cyfan mae lefel yr ymrwymiad i TGCh yn y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Ers yr archwiliad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddarau ei strategaeth TGCh a'i chyflwyno i'r Bwrdd. Mae'r strategaeth newydd yn cysylltu'r risgiau sy'n gysylltiedig â seilwaith gwael â llywodraethu gwybodaeth ac yn nodi'r camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, bydd angen buddsoddiad sylweddol a, hyd nes y bydd hyn yn cael ei ddatrys, bydd y risgiau o'r seilwaith TGCh ar lywodraethu gwybodaeth yn aros. Mae adran llywodraethu gwybodaeth y Bwrdd Iechyd yn cynnwys un person, sy'n cyflwyno risg sylweddol i'r sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnig strwythur newydd sy'n ceisio mynd i'r afael â'r diffyg, ond bydd angen ariannu hyn hefyd.

- 
- 60.** Mae materion llywodraethu gwybodaeth yn cael eu trafod a'u craffu yn yr Is-bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth (IGSC), sy'n is-bwyllgor i'r Pwyllgor Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad (BPPAC). Mae trafodaethau diweddar y Bwrdd wedi ystyried a ddylai rôl a chylch gwaith yr is-bwyllgor ymestyn i gwmpasu meysydd yn y strategaeth newydd. Byddai hyn yn cynnwys llywodraethu gwybodaeth, seilwaith TGCh a datblygiadau sy'n cyfrannu at lywodraethu da. Fodd bynnag, penderfynwyd dychwelyd i lywodraethu gwybodaeth ar ei ffurf buraf, gydag is-grŵp yr IGSC i edrych ar faterion rheoli gwybodaeth a thechnoleg. Mae'r IGSC yn gyfrwng da ar gyfer craffu a sicrwydd.
- 61.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae fy nhîm wedi gwneud gwaith i asesu'r trefniadau gwybodaeth wrth gefn a'r cynnydd yn erbyn mynd i'r afael â phryderon ac argymhellion mewn adolygiadau llywodraethu gwybodaeth blaenorol. Daeth fy archwiliadau i'r casgliad bod y Bwrdd lechyd wedi gweithredu ar ein hargymhellion llywodraethu gwybodaeth ond bod yna risgiau o hyd gan nad yw'r materion wedi'u trafod yn llawn hyd yma a gan fod angen ymagwedd fwy corfforaethol o hyd.

**Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi'u cryfhau, er bod yna gyfleoedd eraill i wella o hyd. Nid yw llawer o'r targedau perfformiad yn cael eu cyflawni**

- 62.** Nododd fy ngwaith asesu strwythuredig blaenorol fod trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu perfformiad wedi gwella a bod materion perfformiad yn cael eu deall yn well. Fodd bynnag, roedd y gwaith o fonitro perfformiad yn canolbwyntio ar y darparwr yn bennaf ac roedd gwella perfformiad yn dal i fod yn her sylweddol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd wedi cryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad, gydag atebolrwydd cliriach a chyfarfodydd craffu a herio perfformiad misol a gadeirir gan y Prif Swyddog Gweithredol. Mae adroddiadau perfformiad manwl yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r BPPAC, gan gwmpasu perfformiad, cyllid a'r gweithlu.
- 63.** Rydym wedi gweithredu ar y cyd i gryfhau adroddiadau perfformiad i gefnogi gwaith craffu a phenderfyniadau, o ran cynnwys, amseroldeb ac aliniad y wybodaeth am berfformiad. Mae'r adroddiadau perfformiad yn cynnwys amryw o agweddau cadarnhaol megis cymysgedd da o wybodaeth ansoddol a meintiol, cynnwys tueddiadau a thargedau, y defnydd o straeon ac adroddiadau eithrio sy'n rhoi manylion camau arfaethedig. Mae'r Bwrdd lechyd wedi nodi ei fwriad i adrodd perfformiad mewn ffordd fwy integredig i'w gwneud hi'n haws i gael darlun llawn o berfformiad. Mae cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni hyn ond nid yw wedi'i gyflawni hyd yma ac mae yna gyfleoedd o hyd i gryfhau adroddiadau perfformiad ymhellach, gan gynnwys gwell crynodeb gweithredol i gipio'r materion allweddol ac ehangu cwmpas gweithgareddau'r Bwrdd lechyd, er enghraifft, gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.

- 
64. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â meysydd perfformiad allweddol ac, er bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud, nid yw llawer o dargedau perfformiad yn cael eu cyflawni, gan gynnwys gofal heb ei drefnu ac amseroedd aros dewisol. Mae cyfyngiadau capasiti corfforaethol a gweithredol yn rhwystr i reoli a gwella perfformiad yn effeithiol.

### Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, mae yna gyfleoedd hefyd i ddefnyddio adnoddau'n well mewn amryw o feysydd allweddol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â staff, pobl leol a phartneriaid yn well, ond mae'n dal i wynebu risgiau sylweddol mewn perthynas â'i weithlu, ei allu TGCh a'i drefniadau rheoli newid

65. Fel rhan o'm gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, adolygwyd y modd y rheolir agweddau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Dengys y gwaith hwn fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd mewn sawl maes sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau a amlygwyd gennyf yn Asesiadau Strwythuredig y blynyddoedd cynt, ond ei fod yn dal i wynebu risgiau sylweddol mewn perthynas â'i weithlu a'i allu TGCh a bod angen i'r Bwrdd Iechyd roi seilwaith rheoli newid mwy cadarn ar waith. Nid wyf wedi gwneud sylwadau ar Ystad y Bwrdd Iechyd yn Asesiad Strwythuredig eleni gan ei fod yn destun archwiliad lleol manylach a fydd yn cyflwyno adroddiad yn gynnar yn 2016. Ceir crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn [Arddangosyn 2](#).

#### Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig – agweddau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Y gallu i reoli newid	Er bod yna enghreifftiau o newid cadarnhaol mewn gwasanaethau, mae angen cryfhau'r seilwaith rheoli newid ategol. Mae rhwystrau allweddol i newid llwyddiannus yn cynnwys diffyg trefniadau rheoli prosiect a rhaglen penodedig, gallu cyfyngedig dadansoddwr gwybodeg a chyfyngiadau capasiti corfforaethol a gweithredol.
Cynllunio'r gweithlu	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd amryw o gamau i ddeall a mynd i'r afael â blaenoriaethau'r gweithlu, ond mae yna risgiau sylweddol o hyd ac mae angen mynd i'r afael ag amryw o faterion rheoli o fewn y gweithlu.
Gweithio mewn partneriaeth	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ac mae'n parhau i gael ei gryfhau, er bod angen gwneud mwy i ddangos yr effaith.

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Ymgysylltu â rhanddeiliaid	Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei drefniadau o ran ymgysylltu â staff a'r cyhoedd ac mae yna arwyddion bod mwy o ymddiriedaeth, er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gweithio ar hyn yn barhaus.
Defnydd o dechnoleg	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i wella'r seilwaith TGCh, ond mae prinder buddsoddiad a chyllid yn golygu bod hyn yn risg o hyd.

Er bod rhai o'r prosesau rheoli meddyginiaethau yn dda, mae yna hefyd le i wella mewn meysydd sy'n gysylltiedig â threfniadau corfforaethol, monitro perfformiad, cyfleusterau aseptig, trosglwyddo gwybodaeth, lleihau amrywiad ar draws safleoedd a helpu pobl i gymryd eu meddyginiaethau

66. Roedd fy adolygiad o brosesau rheoli meddyginiaethau yn dilyn y gwaith archwilio lleol blaenorol a gyflawnodd fy nhîm ar ragnodi gofal sylfaenol. Canolbwyntiodd ar agweddau ar reoli meddyginiaethau sy'n cael effaith uniongyrchol ar gleifion mewnol mewn ysbytai aciwt. Roedd y gwaith yn cwmpasu gwybodaeth am feddyginiaethau a ddarperir gan feddygon teulu i gefnogi derbyniadau, adolygiadau o feddyginiaethau mae cleifion yn eu derbyn yn ystod eu hamser yn yr ysbyty, y cymorth mae cleifion yn ei gael i gymryd eu meddyginiaethau a'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n dda ar ôl i'r cleifion gael eu rhyddhau.
67. Yn ôl fy adolygiad, mae gwendidau mewn trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn gallu bod yn rhwystr i sicrhau goruchwyllo a chynllunio strategol digonol. Er bod arweinwyr fferyllfeydd sirol yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth ar lefel leol, daeth fy nhîm i'r casgliad bod y newidiadau mynych mewn swyddi uwch reoli yn risg i wella trefniadau rheoli meddyginiaethau. Roedd y grŵp rheoli meddyginiaethau yn gweithio'n dda fel y fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â meddyginiaethau, gyda phenderfyniadau'n cael eu dosbarthu'n gyflym ar draws y Bwrdd Iechyd. Er bod yna strategaeth integredig ar gyfer rheoli meddyginiaethau, mae angen ei diweddarau ac mae angen mwy o ymgynghori â staff fferyllfeydd. Yr un fath â byrddau iechyd eraill, ychydig iawn o gyfraniad mae tîm y fferyllfeydd yn ei wneud mewn fforymau penderfynu uwch ac, er bod gwybodaeth ariannol yn cael ei monitro a'i chraffu'n rheolaidd, mae'r cynllun arbedion rheoli meddyginiaethau yn tanberfformio.
68. Er bod proffil staffio fferyllfeydd yn debyg i weddill Cymru, credir bod y lefelau llwyth gwaith yn uchel iawn, ac mae'r pwysau ar dîm y fferyllfeydd ar hyn o bryd yn arwain at flaenoriaethu gwasanaethau i grwpiau penodol o gleifion. Mae gwasanaethau'n ymatebol ar y cyfan ac mae cysylltiadau'n dda, ond mae yna amrywiadau ar draws safleoedd, mae yna le i wella mynediad y tu allan i oriau arferol ac mae angen cynyddu'r ffocws ar hyfforddiant.

- 
- 69.** Mae cyfleusterau fferyllfeydd yn cydymffurfio â gofynion allweddol ar y cyfan, ond mae yna broblemau mewn perthynas â rheoli tymereddau a storio meddyginiaethau ar wardiau. Mae gan bob uned aseptig ddiffygion, er bod yna risgiau sylweddol gyda'r uned yn Ysbyty Glangwili, yn enwedig mewn perthynas â'i strwythur ffisegol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â storio ac oeri meddyginiaethau ar y wardiau a nodwyd yn ystod hapwiriadau 'Ymddiried mewn Gofal'.
- 70.** Nododd fy nhîm rai agweddau da ar brosesau rheoli meddyginiaethau, ond mae yna risgiau o ran trosglwyddo gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, amrywiadau ar draws safleoedd ac o ran helpu cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n iawn. Mae amseroldeb y gwaith cysoni meddyginiaethau yn dda ar y cyfan ar draws y Bwrdd Iechyd ac mae'r rhan fwyaf o gleifion yn derbyn adolygiad cynhwysfawr. Mae prosesau fformiwlari'r Bwrdd Iechyd yn unol â gweddill Cymru ar y cyfan ac mae meddygon yn nodi bod copïau caled o'r Fformiwlari Cenedlaethol Prydeinig yn fwy hygyrch na chopïau electronig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau uniongyrchol mewn ymateb i 'Ymddiried mewn Gofal', a gwelwyd bod y rhesymau dros beidio â rhoi meddyginiaethau wedi'u cofnodi'n gymharol dda. Mae angen gwneud mwy i asesu anghenion cydymffurfiaeth cleifion ac i addysgu cleifion a'u helpu i gymryd eu meddyginiaethau yn iawn.
- 71.** Nododd fy nhîm fod yna le i gryfhau adroddiadau perfformiad trwy osod a monitro dangosyddion perfformiad allweddol, meincnodi ac ystyried perfformiad yn fwy rheolaidd ar lefel pwyllgor Bwrdd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i ddeall pam mae nifer yr ymyriadau diogelwch gan dîm y fferyllfeydd yn uwch na'r cyfartaledd. Mae yna brosesau da ar y cyfan i ddysgu o wallau a methiannau systemau mewn perthynas â meddyginiaethau, er y dywedwyd wrthym nad yw rhai mathau o ddiagnosisyddiadau yn cael eu cofnodi.

**Mae gwybodaeth am faint o apwyntiadau dilynol cleifion allanol sy'n cael eu gohirio yn annibynadwy ac nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i asesu risg glinigol neu flaenoriaethu'r gwaith o foderneiddio gwasanaeth cleifion allanol**

- 72.** Mae yna bryder bod y ffocws ar sicrhau apwyntiadau cyntaf er mwyn bodloni targedau atgyfeirio i gael triniaeth, mewn amgylchedd lle mae adnoddau'n brin, yn golygu bod llai o sylw'n cael ei roi i apwyntiadau dilynol. Mewn rhai byrddau iechyd, mae hyn wedi arwain at ôl-groniadau mawr, gyda risgiau cysylltiedig ar gyfer ansawdd y gofal. Yn ystod 2015, cynhaliodd fy nhîm adolygiad o apwyntiadau dilynol cleifion allanol i asesu sut mae'r risgiau hyn yn cael eu nodi, eu rheoli a'u lliniaru ledled Cymru.
- 73.** Nododd fy adolygiad fod gwendidau yn systemau ac arferion y Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu gwybodaeth nad yw'n ddigon cywir, sy'n golygu na all y Bwrdd Iechyd asesu'r risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â gofynion safon data Llywodraeth Cymru ac mae angen iddo wella cywirdeb, dibynadwyedd ac ystod y wybodaeth sydd ar gael am apwyntiadau dilynol cleifion allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd newydd ddechrau rhoi dull systematig ar waith i ddilysu ei restr o gleifion allanol sydd angen apwyntiad dilynol, ac



---

mae angen gwneud gwaith i sefydlu maint y galw ac asesu'r risgiau clinigol a'r niwed i gleifion sy'n aros y tu hwnt i'w dyddiad targed.

- 74.** Mae nifer y cleifion ar restr y Bwrdd Iechyd o bobl sy'n disgwyl cael apwyntiad dilynol wedi lleihau yn sgil glanhau data, ond mae gormod o gleifion yn gorfod disgwyl o hyd. Nododd fy nhîm nad yw'r Bwrdd na'i bwyllgorau yn derbyn digon o wybodaeth am oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol neu a yw cleifion yn cael niwed tra'u bod yn aros, ac mae angen gwella trefniadau craffu a sicrwydd.
- 75.** Er bod trefniadau gweithredol tymor byr yn dechrau cael eu datblygu i helpu i leihau nifer yr achosion o oedi wrth drefnu apwyntiadau dilyn cleifion allanol, mae angen gwneud mwy i newid y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yn ôl fy adolygiad, er bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a chynyddu gofal yn y gymuned, nid oes digon o ffocws ar weddnewid llwybrau gwasanaethau cleifion allanol.

# Atodiad 1

---

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiad Archwilio 2015	Mawrth 2015
<b>Adroddiadau archwilio ariannol</b>	
Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol – Bwrdd Iechyd	Mehefin 2015
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2015
Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol – Elusennau	Rhagfyr 2015
<b>Adroddiadau archwilio perfformiad</b>	
Adolygiad o Apwyntiadau Dilydol Cleifion Allanol	Hydref 2015
Adolygiad Diagnostig o Gapasiti ac Adnoddau TGCh	Hydref 2015
Adolygiad Rheoli Meddyginiaethau	Awst 2015
Adolygiad o Ddata Wrth Gefn	Mehefin 2015
Gwaith dilydol ar Lywodraethu Gwybodaeth	Mehefin 2015
Asesiad Strwythuredig 2015	Rhagfyr 2015

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, ynghyd ag amcan o'r dyddiadau cwblhau ar gyfer y gwaith.

Adroddiad	Amcan o'r dyddiad cwblhau
Adolygiad Dilydol o Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai	Ionawr 2016
Adolygiad Staffio Dros Dro	Chwefror 2016
Adolygiad o Ystadau	Mawrth 2016
Adolygiad Dilydol o'r Contract Meddygon Ymgynghorol	Mehefin 2016
Adolygiad o Wasanaethau Radioleg	Awst 2016



# Atodiad 2

---

## Prif risgiau archwilio ariannol

Yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015, nodwyd y prif risgiau archwilio ariannol ar gyfer 2015. Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'r archwiliad.

Prif risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none"><li>• profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol er mwyn canfod a ydynt yn briodol;</li><li>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod unrhyw duedd; a</li><li>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol.</li></ul>	Adolygais sampl o drafodion ac ni nodais unrhyw faterion i'w hadrodd.
Mae yna risg o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll mewn perthynas â chydabyddiaeth refeniw, felly mae cydnabyddiaeth refeniw yn cael ei hystyried fel risg sylweddol [ISA 240.26-27].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none"><li>• adolygu a phrofi'r ffrydiau cyllid ac incwm unigol a dderbynnir gan y Bwrdd Iechyd; ac</li><li>• ystyried a yw pob ffrwd cyllid ac incwm wedi'u nodi.</li></ul>	Ystyriais ffrydiau incwm y Bwrdd Iechyd. Ni nodwyd unrhyw risgiau ychwanegol.

Prif risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Mae yna risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei derfyn adnoddau refeniw blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, nid yw hi'n glir ar hyn o bryd beth fydd y ddyletswyddau ariannol statudol hynny: bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau maes o law. Yr un fath â'r llynedd, efallai y byddaf yn dewis cyhoeddi adroddiad terfynol ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant a'r amgylchiadau a arweiniodd at y methiant hwnnw.</p> <p>Mae'r pwysau ariannol ar y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cynyddu'r risg y gallai penderfyniadau ac amcangyfrifon rheoli fod yn rhagfarnllyd mewn ymdrech i gyflawni'r terfyn adnoddau.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ei brofion ar feysydd yn y datganiadau ariannol a allai gynnwys rhagfarn.</p>	<p>Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r BILL gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol newydd. Cyhoeddais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio i esbonio'r ddyletswyddau newydd, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.</p> <p><b>Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf</b> yn rhoi mwy o hyblygrwydd adnoddau i fyrddau iechyd trwy eu galluogi i sicrhau cydbwysedd rhwng eu hincwm a'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd, gan ddileu'r ddyletswydd i gydbwysu eu llyfrau dros gyfnod o flwyddyn.</p> <p>Y cyfnod tair blynedd cyntaf o dan y ddyletswydd hon yw 2014-15 tan 2016-17, felly ni fydd perfformiad byrddau iechyd yn erbyn y ddyletswydd hon yn cael ei fesur tan 2016-17.</p> <p><b>Mae'r ail ddyletswydd ariannol</b> yn ddyletswydd newydd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i BILLau baratoi CTCI tair blynedd treigl a chael Gweinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ail ddyletswydd ariannol i sicrhau bod CTCI tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2014-15 tan 2016-17.</p>
<p>Mae yna risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau mawr ar ei sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn.</p> <p>Mae diffyg arian parod yn debygol o gynyddu amseroedd talu credydwyr ac effeithio ar</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r PSPP, gan ystyried y pwysau ariannol ar y Bwrdd Iechyd.</p>	<p>Asesais drefniadau'r Bwrdd Iechyd a chynhaliais brofion priodol.</p> <p>Nodais rai materion i'w hadrodd mewn perthynas â datgeliadau PSPP, gweler <a href="#">Arddangosyn 1</a>.</p>

---

berfformiad PSPP.

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)